***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2013 No. 3045

# Gorchymyn Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Ceredigion (Diddymu) a Choleg Ceredigion (Sefydliad Dynodedig mewn Addysg Bellach) 2013

**Trosglwyddo Staff**

**4.** Mae adran 26(2), (3) a (4) o'r Ddeddf yn gymwys i unrhyw berson a gyflogir gan Gorfforaeth Addysg Bellach Coleg Ceredigion ("*Coleg Ceredigion Further Education Corporation*") yn union cyn 31 Rhagfyr 2013 fel petai'r cyfeiriadau yn yr adran honno—

(a) at berson y mae'r adran honno yn gymwys iddo yn gyfeiriadau at berson sy'n gyflogedig fel hynny;

(b) at y dyddiad gweithredol yn gyfeiriadau at 31 Rhagfyr 2013;

(c) at y trosglwyddwr yn gyfeiriadau at Gorfforaeth Addysg Bellach Coleg Ceredigion ("*Coleg Ceredigion Further Education Corporation")*; a

(d) at y gorfforaeth yn gyfeiriadau at Goleg Ceredigion ("*Coleg Ceredigion*").